# Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 244 Pris £1 Mis Mai 2022



**Da iawn, Natasha – 100 o gapiau**

# Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd – yr Argyfwng Hinsawdd

Mai'r 18fed yw Diwrnod Neges Heddwch ac Ewyllys Da Cymru. Bob blwyddyn ers 1922, mae pobl ifanc Cymru yn anfon neges o heddwch i bobl ifanc dros y byd. Dyma'r unig neges o'i math yn y byd!

Mae neges Heddwch ac Ewyllys Da canmlwyddiant yr Urdd yn ffocysu ar yr argyfwng hinsawdd. Mae'n alwad-i-weithredu gan blant a phobl ifanc Cymru i bobl ifanc y byd, i ddefnyddio pwysigrwydd a phŵer eu llais i erfyn ar lywodraethau a chorfforaethau mawr i weithredu ar frys er mwyn achub ein planed. Mae'n amser deffro!

Mae'r Urdd wedi sefydlu partneriaeth gyda Phrifysgol Aberystwyth a chriw o fyfyrwyr er mwyn creu neges y canmlwyddiant, sydd yn cynrychioli llais plant a phobl ifanc Cymru. Wrth ffocysu ar y thema argyfwng hinsawdd, mae'r bobl ifanc yn defnyddio eu llais er mwyn creu neges bwerus sydd yn pwysleisio'r angen i weithredu cyn iddi fod yn rhy hwyr.

Er mwyn dyfnhau pwysigrwydd rhyngwladol y neges, ffurfiwyd partneriaeth ffurfiol rhwng myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth a chriw o fyfyrwyr o'r University of Life Sciences yn Norwy. Cafwyd gweithdy rhithiol gyda myfyrwyr o'r ddwy brifysgol er mwyn trafod y pwnc a rhannu syniadau a diwylliannau gwahanol.

Rhowch 18fed o Fai yn eich dyddiaduron, er mwyn ymuno gyda'r Urdd, Prifysgol Aberystwyth a phlant a phobl ifanc Cymru, wrth i ni rannu Neges Heddwch ac Ewyllys Da ein canmlwyddiant.

Dilynwch @Urdd ar Twitter, ac Urdd Gobaith Cymru ar Facebook, a @UrddGobaithCymru ar Instagram wrth ddefnyddio #Heddwch100, er mwyn rhannu'r neges ar y diwrnod. Cadwch eich llygaid yn agored ar gyfer y pecyn ymgysylltu fydd ar gael i'w lawrlwytho yn agosach i'r dyddiad.



## Moira Thomas

Dymunwn bob cydymdeimlad i deulu'r diweddar Mrs Moira Thomas. Bu Moira yn byw yn Castle Park, Caerffili am flynyddoedd lawer a chofiwn amdani yn athrawes yn Uned Gymraeg, Coedybrain, Llanbradach. Roedd y teulu am gynnal angladd hollol breifat a bwriad y papur yw parchu hyn er ein bod yn meddwl am Huw, Emyr ac Eleri yn eu profedigaeth.


**PWYLLGOR a SWYDDOGION**

*Ariennir yn rhannol gan* ***Lywodraeth Cymru***

**Cadeirydd:** Robert Dutt **Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis

**Trysorydd:** Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

**Golygydd:** Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

**Golygydd** **Lluniau:** Mary Jones **Cynorthwy-ydd:** Jan Penney

**Gweplyfr/ Face book:** Papur Bro Cwmni **Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Dilys Williams

**Hysbysebu:** Bethan Ollerton Jones, Menter Iaith

**Gwefan:** Menter IaithSir Caerffili.cymru/ Cwmni

**e-bost**: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamarycwmni@yahoo.com

**Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn ôl gofynion golygyddol.**

**Argraffir gan Tower Print, Bedwas**

## Aisha Palmer



Ein llongyfarchiadau mwyaf calonogol i Aisha Palmer sydd wedi ychwanegu anrhydedd pellach i'w rhestr hir o gyflawniadau am ei sgiliau cerddorol ar y delyn. Mae teulu Aisha o Gaerffili ac mae hi'n gyn ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Caerffili ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Yn ddisgybl ysgol gwnaeth argraff fawr yn Eisteddfodau'r Urdd a thrwy berfformio mewn amryw gyngherddau.


Cyhoeddwyd yn ddiweddar fod Aisha wedi ennill ysgoloriaeth Nansi Richards eleni. Roedd Nansi Richards yn delynores enwog yn ystod y ganrif o'r blaen ac mae ei henwogrwydd hi yn cadarnhau statws uchel iawn y dyfarniad hwn i Aisha.

Mae Aisha yn ei thrydedd flwyddyn yn Academi Gerddoriaeth Llundain ac mae eisoes am fynd ymlaen yn y pen draw i wneud gradd Meistr. Ymddangosodd ar BBC Radio Cymru yn egluro'r hyn fu'n rhaid iddi hi ei wneud i ennill ysgoloriaeth Nansi Richards. Y rhaglen berfformiodd Aisha ar gyfer yr Ysgoloriaeth yng Ngŵyl Delynau Cymru oed Gareth Glyn - Erddigan, Sally Beamish - Awuya , Tourier - Feerie Prelude et Dance.

Hefyd, fel rhan o'r anrhydedd mae wedi derbyn gwahoddiad i berfformio yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Dymunwn bob hwylustod iddi wrth iddyn ganlyn ei gyrfa addawol.

## Natasha Harding

Gwelwn yn gynyddol, ym myd chwaraeon y ffordd y mae'r merched bellach yn cystadlu'n fwy cyfartal â'r dynion yn rhai o'r prif gampau. Yn sicr, mae merched Cymru wedi bod yn dangos y ffordd i dîm rygbi'r genedl. A rhaid cyfaddef hefyd gymaint mwy gwladgarol mae'r Gymdeithas Bêl Droed, yn enwedig o gymharu ag Undeb Rygbi Cymru. Pwy all fyth anghofio Dafydd Iwan yn canu 'Yma o Hyd' cyn buddugoliaeth fythgofiadwy Cymru o ddwy gôl i un yn erbyn Awstria? (Mae geiriau'r anthem bellach wedi'u cyhoeddi'n gyfan ar wefan Wales On-line.)



Yr hyn hefyd sy'n galonogol yw gweld Cymry Cymraeg, o'n hardal ni, mor flaengar ym myd y bêl gron. Un o'r sêr mwyaf disglair erbyn hyn yw Natasha Harding, sy'n dod o Gefn Hengoed ac yn gyn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Enillodd Natasha ei chanfed cap ar y 12fed o Ebrill gan ddathlu'r garreg filltir nodedig hon â gôl.

Un sy'n cadw cwmni yn y garfan genedlaethol i Natasha yw Morgan Rogers , un sydd yn dechrau ar yrfa ryngwladol gan obeithio ennill ei chap cyntaf yn fuan. Ond yr hyn sy'n ddiddorol yw i Kath Morgan o Fleur-de-Lis, sydd hefyd yn chwarae dros Gymru fod yn athrawes ar Natasha yng Nghwm Rhymni. Dechreuodd Natasha gynrychioli ei gwlad nôl yn 2008 pan oedd ond yn 19 mlwydd oed gan ddod oddi ar y fainc yn erbyn y Swistir lle collodd Cymru o ddwy gôl i ddim. Erbyn hyn mae'n 33 mlwydd oed ac yn ennill ei thamaid yn chwarae i Reading.

Yr athro sy'n hyrwyddo pêl droed yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yw Tony Wilding. Bu'n gysylltiedig â llwyddiant Aaron Ramsey a hefyd chwaraeodd ran bwysig hefyd yn natblygiad y ddwy ferch yma. Dechreuodd Natasha ei gyrfa gyda Dinas Caerdydd gan ymddangos iddynt am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2007. Aeth ymlaen i gynrychioli'r clwb yng Nghwpan Menywod UEFA 2007-08. Yna, mynd ymlaen i fod yn gapten dros Ddinas Caerdydd cyn ymuno â Bristol Rovers. Ddiwedd tymor 2014 roedd sôn am amdani yn ymuno â Washington Spirit ond methiant fu hynna ac yn lle hynny arwyddodd dros Ddinas Manceinion.

Yn Ionawr 2016 gwerthwyd Natasha gan Ddinas Manceinion. Yn ddiweddarach yr wythnos honno arwyddodd i Ferched Lerpwl ym mis Rhagfyr 2017. Yna, aeth at Fenywod Reading ar drosglwyddiad rhad ym mis Ionawr 2018. Ers hynny enwebwyd hi'n gapten yno.

# Stori ’Gu (1)

*‘Gu yn yr erthygl hon yw Mrs Eirlys Thomas, Ystrad Mynach, ac fe ysgrifennwyd yr erthygl gan Megan Thomas, wyres Eirlys a Gwilym Thomas. Yn yr erthygl mae Megan yn disgrifio’r frwydr galed ymladdodd ei mam-gu i sefydlu Ysgol Gymraeg ym Margod yn 1963. Mae Megan yn delynores dalentog iawn sy’n disgwyl mynd ymlaen i’r brifysgol cyn bo hir i astudio Saesneg. Mae hi’n ferch i Iwan a fynychodd Ysgol Gilfach Fargod ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ynghyd â’i chwaer Eleri.*

0

Dyna’r broblem. Y blynyddoedd yn mynd yn eu blaen, a’r niferoedd yn gyson isel, dim twf, dim datblygiad. Tân a fu’n rhuo’n felyngoch yn y gorffennol wedi lleihau nes ei fod yn mudlosgi, ar drothwy marwolaeth wedi’r blynyddoedd hirlwm. Ymddangosai fel petai neb yn poeni wrth weld y fflam olaf yn diffodd, yn gadael am byth, neb yn ymdrechu i’w ysgogi. Yn wir, llond llaw o bobl oedd eisiau ei achub. Llai fyth oedd â’r gallu i gyflawni hyn.



Ond, yn ôl yr hanes, roedd hynny’n ddigon. Tri i ddechrau, dynion digon annodweddiadol yr olwg. Dechreusant holi. Aethant o amgylch yr ardal i geisio darganfod y rheini ag oedd a’r gallu helpu. Cynnig cyfle oedd eu bwriad.

Daethant ataf i yn y pen draw. Roeddwn i’n weddol newydd i’r ardal, wedi teithio o fywyd ffermio cefn gwlad i ddod i fyw ac i ddysgu. Gofyn am fy help wnaethant, ac fe’m hysbrydolwyd innau gan eu geiriau angerddol.

Cyn pen dim, darganfuwyd man digon cyfleus. Ystafell fechan, syml yr olwg yng nghanol yr Ysgol Saesneg, megis cragen ymysg cerrig. Doedd dim deunyddiau i ni yno, dim ond croeso i ddefnyddio’r pedair wal fel man cychwyn. Gwelais y fflam fechan yn dal yn fyw, yn ymladd yn erbyn y gwynt. Cyfle’r oedd hi, siawns i ymdrechu i adfywio’r iaith ar ôl blynyddoedd diofal oeraidd.

9

Diwrnod cynta’r arbrawf, a genedigaeth ein Dosbarth Cymraeg. Wrth ddal yn dynn ar ddwylo crynedig, ceisiais eu harwain tuag at ddrws blaen yr ysgol gan adael rhieni ffyddlon yn gwgu’n wyliadwrus ar ein holau. Bu rhai’n chwifio tuag at y plant, eraill yn sefyll yn stond wrth ein gwylio’n gadael, ond pob un â gwên ar eu hwynebau gan ddeall pwysigrwydd ein tasg.

Noson ynghynt, helais ym mhob twll a chornel o’m cartref am unrhyw beth tebyg i ddeunyddiau ysgol. Doedd dim modd creu llyfrau iddynt, felly dringais y grisiau igam-ogam i’r to i chwilio am ysbrydoliaeth. Gan ymestyn y tu ôl i’r biwrô i gynnu’r golau, teimlais rywbeth crwn, tenau, a chwbl bapurus yn erbyn fy mysedd. Ar ôl straffaglu i wthio’r pren tywyll o’r ffordd, estynnais, gan gydio mewn rholyn o bapur wal gwyn fu’n cuddio yn erbyn y wal. Gosodais y rholyn ar hyd y llawr a’i wthio cyn belled ag y gallais. Bu bron iddo gyrraedd pen pella’r ystafell fechan. Estynnais tuag at y ford a chydio mewn pâr o sisyrnau, wrth i’r cyfle aur orwedd fel gwahoddiad o’m mlaen. Dechreuais dorri.

Wedi i bob un o’r naw eistedd yn llonydd yn eu cadeiriau anwastad, dyna’r hyn a estynnais o fy mag mawr brethyn y bore hwnnw. Gosodais un sgwâr melynfrown megis map gwag yn aros am anturwr teilwng o flaen pob un o’r disgyblion. Wrth imi symud o un i’r llall gwelais ddarn papur ambell i ddisgybl yn crebachu’n ôl i siâp rolyn, megis cranc i’w gragen, ac yn disgyn yn bendramwnwgl i’r llawr. Yn amlwg, bu’r papur wal yn cadw’i siâp yn ufudd am flynyddoedd, ac roedd angen peth perswâd i’w hyblygu i’w swydd newydd.

YSGOL GYMRAEG
CENEDL HEB IAITH
CENEDL HEB GALON
GILFACH FARGOD

“Ein Tad, yr hwn wyt yn y Nefoedd, sancteiddier dy enw…” Cipiais olwg ar y plant, eu llygaid ynghau’n dynn, eu dwylo wedi’u gwasgu at ei gilydd. Dim un â’r awydd i agor eu llygaid a thorri’r swyn.

“Deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys…”

Pythefnos wedi mynd, ac yn barod dyblodd ein nifer. Ymuna un neu ddau bob yn ail ddydd fel adar coll yn chwilio am nyth wrth i sôn am yr ysgol newydd gyrraedd rhagor o glustiau cudd.

“...megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd…”

A dweud y gwir, doeddwn i ddim yn optimistig y byddai’r fath gynnydd yn digwydd. Do, mi roeddwn yn siŵr bod rhyw fath o alw am hyn, ond fel pob syniad heb ei ddeor, roedd hi’n amhosib rhagfynegi’r canlyniad. O deuluoedd Cymraeg daw’r rhan fwyaf ohonynt, gydag hyn yn byrlymu i’r arwyneb o fewn cyfnodau adrodd emynau. Roeddwn yn adnabod teuluoedd rhai ohonynt o’u gweld yn yr Ysgol Sul, y plant yn hen gyfarwydd â’r straeon Beiblaidd moesegol. Rhain oedd y rhai hawsaf i ddysgu gan amlaf. Cawsant sylfaen yn yr iaith trwy’r grefydd, gyda’u traed trwy drothwy’r drws yn ifanc. …

”dyro ini heddiw ein bara beunyddiol…”


Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod

Eraill a ddaeth o deuluoedd Cymraeg nad oeddent yn gapelwyr. Doedd hyn ddim yn fawr o broblem - yr unig wahaniaeth oedd taw caneuon pert oedd yr emynau iddynt, heb unrhyw gysylltiad neu ystyr ddyfnach. Byddwn yn clywed y plant yma’n ceisio ail-greu’r alawon ar iard yr ysgol wrth iddynt chwarae. Darganfod neges eu hunain wnaethant wrth anghofio ambell i linell, eu llenwi a’u geiriau eu hun ac yna’n parhau - diniweidrwydd ieuenctid eto’n profi’i werth. Ambell dro, gwelais gydweithio rhyngddyn nhw a’r rhai nad oedd yn gyfarwydd â’r gerddoriaeth. Plant yn addysgu plant. Gan amlaf, trwy wyrth dychymyg plant cawn berfformiad o gyfuniad gweddi’r bore a’r stori ddiwethaf a greodd argraff arnynt, gan arwain at Daniel yn pregethu “Cwm Rhondda” ‘n uchel i’w lewod.

“...fel y maddeuwn innau i’n dyledwyr…”

Er Cymreictod naturiol rhan fwyaf o’r dosbarth, denwyd ambell ddisgybl i’r ysgol yn hollol ddi-Gymraeg. Edrych yn betrus ond yn gadarnhaol wnaethant wrth ymuno â’n dosbarth, gyda’u rhieni’n edrych yn awyddus ar eu holau cyn troi’n ôl i gyfeiriad y gymuned. Lle bu’r disgyblion eraill yn gryf eu sŵn wrth ynganu gair newydd, distawrwydd a ostyngodd dros y newydd-ddyfodiaid, eu cegau’n ceisio creu siâp y gair heb sain. Ofn tynnu sylw. Safant yn stond ar ymyl allanol y cylch yn ystod y chwarae, yn ceisio datgan natur y gêm heb yr iaith i’w cynorthwyo. Cywion bach yn canu i’w gilydd gan geisio efelychu cân y rhiant. Rhain oedd y rhai a edmygais fwyaf. Bob dydd yn eu tro, clywais y mwmian yn troi’n sibrwd cynnil, dim digon i’w cyd-ddisgyblion glywed ond digon iddyn nhw fel unigolion ddechrau cyfarwyddo â’r siapiau anghyfarwydd. Yn araf, araf, bu’r sibrwd yn troi’n siarad isel wrth iddynt ymarfer yn ofalus â’u cyfoedion - gair fan hyn, clwstwr fan draw. Dechreusant chwerthin ynghyd wrth i ddisgybl daflu’i phensil o’r ffenest (ar ddamwain, roeddwn ar ddeall), a chynnig ychwanegion i gemau di-ri’r plant eraill.

“...canys eiddot ti yw’r deyrnas…”

**Byddwn yn cyhoeddi ail ran yr erthygl ragorol hon yn rhifyn mis Mehefin “Cwm*ni*”**

*Ni ddylid copïo neu atgynhyrchu’r erthygl hon, neu rannau ohoni, heb ganiatâd yr awdur, Megan Thomas*

# Dysgwyr yn Cydweithio yn Ysgol Gymraeg Caerffili




Mae dwy ferch a gafodd eu geni filoedd o filltiroedd ar wahân, bellach yn gweithio yn yr un ysgol gynradd Gymraeg ar ôl mynd ati i ddysgu'r iaith.

Yn ddiweddar, cafodd Edina Potts-Klement o Hwngari a Lin Dodd o Tsieina eu penodi i swyddi yn Ysgol Gymraeg Caerffili yn y dref lle maen nhw bellach yn byw. Symudodd y ddwy i'r dref ar ôl cyfarfod eu partneriaid dramor, a dychwelyd gyda nhw i Gymru.

Mi wnaeth Lin gyfarfod ei gŵr, Martin, yn Iwerddon, ac yn Hwngari y gwnaeth Edina gyfarfod ei gŵr, Neil. Roedd y ddwy yn awyddus i anfon eu plant i ysgol gynradd Gymraeg a phenderfynodd y ddwy ddysgu Cymraeg.

## Edina Potts-Klement

''Ganwyd ein pedwar plentyn yng Nghymru, ac ro'n i eisiau iddynt gael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg," meddai Edina Potts-Klement."Dw i wrth fy modd gydag ieithoedd, a dw i'n siarad Hwngareg, Almaeneg a Saesneg, felly roedd dysgu Cymraeg er mwyn cefnogi'r plant yn benderfyniad hawdd.''

Mae hi a Lin Dodd yn dilyn cwrs lefel Uwch gyda Dysgu Cymraeg Gwent, sy'n cael ei gynnal gan Goleg Gwent ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Maen nhw o'r farn fod eu swyddi yn yr ysgol wedi gwella eu sgiliau Cymraeg.

## Lin Dodd

''Mae gen i fwy o hyder i siarad Cymraeg ers i mi ddechrau gweithio yn yr ysgol," meddai Lin Dodd.
"Dw i'n gallu parhau i ddefnyddio fy Nghymraeg gartref gyda fy merch sy'n derbyn ei haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

“Cefais fy synnu pan gynigiodd Mr Griffiths, y Pennaeth, y swydd i mi ac ro’n i wrth fy modd achos ro’n i wastad eisiau gweithio yn yr ysgol.

“Dw i wedi cael cefnogaeth anhygoel gan fy nhiwtoriaid, sef Karen Riste a Helen Hollyman drwy gydol fy nhaith yn dysgu Cymraeg.”

## Ymateb Eu Tiwtor

Penderfynodd Lin gymryd ei llw yn Gymraeg yn ystod ei seremoni dinasyddiaeth yn Ystrad Mynach yn 2021, ac roedd ei thiwtor, Helen Hollyman, yn bresennol yn y seremoni.

‘‘Ro’n i’n lwcus i fod yn y seremoni ac ro’n i’n falch iawn o Lin,” meddai Helen Hollyman.“Mae dysgu Lin dros y pum mlynedd ddiwethaf wedi bod yn bleser pur, ac mae’n wych gweld pa mor bell mae wedi dod.

“Mae Edina wedi gwneud cynnydd anhygoel ers i mi ei chyfarfod gyntaf ddwy flynedd yn ôl.
Mae’n gydwybodol, brwdfrydig ac yn amlwg mae ganddi ddawn gydag ieithoedd.
Dw i wrth fy modd eu bod yn gweithio mewn amgylchedd Cymraeg, a dw i’n siŵr eu bod yn gaffaeliad mawr i Ysgol Gymraeg Caerffili.”

## Pwysigrwydd dysgu ieithoedd newydd

Ychwanegodd Mr Lynn Griffiths, Pennaeth Ysgol Gymraeg Caerffili:

‘‘Iaith gyntaf Edina ydy Hwngareg a Mandarin ydy iaith gyntaf Lin, felly mae cael aelodau o staff sy’n amlieithog yn gweithio yn ein hysgol yn fodd o hyrwyddo pwysigrwydd dysgu ieithoedd newydd.”

“Mae Edina a Lin yn arwyr ieithyddol i bawb yn ein hysgol, ac mae’r clwb Mandarin y mae Lin yn gyfrifol amdano wedi profi’n llwyddiant mawr gyda disgyblion a rhieni fel ei gilydd. “Dy’n ni’n hynod falch o’r hyn y maent wedi ei gyflawni ac mae’r ddwy yn uchel iawn eu parch yn yr ysgol.”

*Bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnig cyrsiau Dysgu Cymraeg yn rhad ac am ddim i bobl sy’n gweithio yn y sector addysg yng Nghymru ym mis Medi. Cliciwch yma <https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/gweithlu-addysg/> i gofrestru eich diddordeb.*

$ $ $ $ $ $ $

***Diolch i Golwg 360 am ganiatâd cyhoeddi’r erthygl wych yma. Ond, rhaid oedd i “Cwmni” fynd i gyfarfod y ddwy ferch hyfryd yma i geisio ongl leol.***

Doedd y ddwy ddim yn peidio â chanmol tref Caerffili a’r cyffiniau. Y ddwy wedi ymhyfrydu yn yr ardaloedd gwledig a hefyd hanes ein tref, yn enwedig y castell. Yn wir, mae Edina wedi ymuno â CADW er mwyn cael gweld mwy o’n cestyll hynafol. Mae Edina a’i theulu yn byw yn y stryd nesaf i le cafodd ei gŵr ei fagu a hynny’n agos i ganol tref Caerffili. Ym mhrifysgol Belfast cyfarfu Lin ei gŵr. Roedd ganddi radd mewn Saesneg cyn hynny ond bu ymdopi â’r iaith honno fel roedd yn cael ei siarad yn Ulster yn dipyn o her!

Ond peth arall oedd yn ddiddorol oedd ymateb y ddwy i’n system addysg. Yn Hwngari a Tsieina mae’n debyg nad yw plant yn dechrau’r ysgol tan eu bod yn chwe blwydd oed ac un rheswm am hyn yw bod dulliau addysgu yn y gwledydd hynny yn fwy ffurfiol. Yn aml iawn, mewn ysgolion preswyl mae’r plant yn astudio. Mae’r ddwy wedi ffoli ar y ffordd mae’n plant ni’n dysgu drwy chwarae. Hefyd, maent wrth eu bodd gydag ehangder ein cwricwlwm gyda’r pwyslais priodol ar chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau celfyddydol megis ein heisteddfodau.

Mae gan y ddwy radd mewn Saesneg ac maent yn siarad ieithoedd eraill hefyd. Eu nod ddechreuol wrth adael eu cartrefi oedd cael mynd i weld y byd. A dyma nhw wedi glanio yma yng Nghaerffili lle mae Lin wedi dechrau clwb Mandarin yn yr ysgol ac yn synnu pa mor rhwydd mae ein plant yn ymdopi â’r iaith honno.

# Cofio Troedrhiw'r-Fuwch - 1

Mae cofeb ryfel yn sefyll wrth ochr yr heol rhwng Pontlottyn a Brithdir. Mae yng nghysgod sgubor anferth ond wrth ei hochr mae gardd goffa fechan hardd. Cofeb ryfel sydd yma i ddynion pentref Troedrhiw'r-fuwch – pentref diflanedig. Dim ond y gofeb i'r meirwon sy'n tystio i'r gymdeithas fywiog y buon nhw'n rhan ohoni.



Pentref glofaol oedd hwn, fel pentrefi a threfi ein cymoedd i gyd. Cyn datblygiad y diwydiannau trymion, cymdeithas wasgaredig oedd yn ffermio defaid ar y llethrau hyn – a gwartheg hefyd os yw enw'r pentref yn gywir. Tyfodd y pentref yn dilyn suddo pyllau glo yng Nghwm Syfïog (Tredegar Newydd heddiw) rhwng 1851 ac 1881. Agorwyd gorsaf fechan ar gyfer y gymuned ifanc yn 1858, ac mae'r adroddiadau papur newydd yn tystio i fywiogrwydd y bywyd yno, i'r clybiau a'r cyfarfodydd amrywiol.

Bu eglwys a chapel yn Nhroedrhiw'r-fuwch gynt, dwy dafarn, swyddfa bost a siopau hefyd, a strydoedd o dai cerrig yn atseinio i sŵn chwarae plant ac ergydiau sgidiau hoelion eu tadau'n dod adre o'r gwaith.

Does dim byd yno heddiw ond dau dŷ, dwsin o goed lle bu rhesi o dai - a'r defaid yn pori'r borfa garw ar lethr y bryn serth. Tyfodd a diflannodd diwydiant, sefydlwyd pentref ac yna fe gafodd ei chwalu ac mae'r defaid wedi bod yma trwy'r cyfan.

Beth a ddigwyddodd? Dirywiodd pethau ar ôl i'r pyllau cyfagos gau yn y 1930au. Gadawodd nifer o deuluoedd i chwilio am waith, a chrebachodd y gymdeithas. Yna dechreuwyd pryderu am ddiogelwch y tai. Canfyddwyd bod y llethrau serth uwchben y pentref yn ansefydlog a gadawodd rhai o'r pentrefwyr yn 1975 oherwydd eu bod yn ofni bod eu tai'n rhy beryglus i fyw ynddynt.

Bu llawer o drafod ac yn y diwedd penderfynodd y Cyngor fod y tai i gyd mewn perygl o gael eu llyncu gan dirlithriad. Ond pan ofynwyd am farn trigolion Troedrhiw'r-fuwch, pleidleisiodd 75% ohonynt dros aros yn eu cartrefi. Serch hynny, nid oedd gwlad yn drech nag arglwydd yn yr achos hwn. Condemniwyd y tai i gyd ar wahan i'r ddau sy'n dal i sefyll heddiw. Cafodd eu perchnogion iawndal, a'u symud i dai cyngor yn y cymunedau cyfagos.

Ond er bod dros ddeugain mlynedd wedi mynd heibio ers chwalu pentref Troedrhiw'r-fuwch, nid yw wedi ei anghofio. Mae plant ac wyrion yr hen bentrefwyr yn dal i gofio eu storïau am y gymuned, yn dal i drysori hen luniau a chreiriau, ac yn gweithio er sicrhau na fydd y pentref wedi diflannu am byth.



Os edrychwch yn ofalus ar y llun o'r gofeb, fe welwch rywbeth arwyddocaol iawn: y sgwaryn bach gwyrdd, gwyn a du sy'n dynodi bod côd QR i'r gofeb. Cafodd Troedrhiw'r-fuwch ei greu gan dechnoleg y 19G; cafoddd ei chwalu ar sail technoleg yr 20G: fe gaiff ei ail-greu'n rhithwir gan dechnoleg yr 21G. Hanes y gofeb sydd ar gael yno ar hyn o bryd, ond cyn bo hir bydd modd i chi ymweld â strydoedd ac adeiladau diflanedig y pentref trwy gyfrwng eich ffôn clyfar - a llafur cariad plant hen drigolion Troedrhiw'r-fuwch.

# Cofio Joan Shapland

**Y Nyrs Athrawes**



O dymor i dymor
am flynyddoedd lawer
bu'r iaith yn clafychu
yng Nghaerffili

Daethost yn famol
i'r dre
i olchi briwiau'r iaith
a'i hymgeleddu
a chodi ei chalon

*Dafydd Islwyn*

Tristwch oedd derbyn y newyddion am farwolaeth yr athrawes hyfryd, Joan Shapland.

Ymgartrefodd Joan â'i gŵr Robert yn Heol Bedwas yng Nghaerffili. Bu'n athrawes am lawer o flynyddoedd yn Ysgol Gymraeg Caerffili tan iddi ymddeol yn 1996 oherwydd ei hiechyd. Yn yr ysgol, arbenigodd mewn addysgu plant adran y Babanod gan wasanaethu am gyfnod ar Fwrdd Llywodraethol yr ysgol.

Mynychodd ei dwy ferch, Lyn a Sian, yr un ysgol a'u mam cyn i Sian fynd ymlaen i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Mae Sian yn gweithio fel Sgriniwr newydd anedig yn Ysbyty Prifysgol Cymru ac yn weinyddes feithrin lawrydd ac mae ganddi fab, Dewi, sy'n 23. I Ysgol Gyfun Rhydfelen yr aeth Lyn, yn aelod o'r garfan olaf i fynd o Gaerffili i'r ysgol honno. Mae ganddi hi dri o blant : Tomos James 30, Sara 29 a Rhidian 25.

Nyrs oedd galwedigaeth gyntaf Joan. Yn Infirmary Caerdydd y derbyniodd ei hyfforddiant dechreuol ac yna astudiodd i fod yn fydwraig. Bu teulu Joan yn addoli yng nghapel yr Annibynwyr yn y Barri a deallwn mai mam Joan oedd yn medru'r Gymraeg. Yna, dechreuodd Joan yn Ysgol Gymraeg y dre a'i henw hi oedd y cyntaf ar gofrestr yr ysgol honno. Dilynodd ei brawd, Philip (Black) hi i'r Ysgol Gymraeg ac mae ei wraig ef, Ruth, wedi llwyddo dysgu'r iaith hefyd. W.R.Evans, tad Gwawr Mason-Davies, oedd pennaeth yr ysgol yr adeg honno. Bydd ein darllenwyr, wrth gwrs, yn cofio am ymroddiad Gwawr i'r Gymraeg a Drama yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Wrth fynd ymlaen i fod yn athrawes, parhaodd Joan â'i sgiliau meddygol drwy fod yn weithgar gydag Urdd Sant Ioan, gweithgaredd yr ymunodd y teulu cyfan â hi. Ac mae sawl un wedi tystiolaethu i bwysigrwydd ei sgiliau meddygol yn yr ysgol.

Yn ei deyrnged yn angladd Joan, meddai'r Parchedig Denzil John "Cofir am Joan fel person o gymeriad cryf â phersonoliaeth wylaidd a thawel, heb erioed geisio cydnabyddiaeth gyhoeddus o hynny. Byddai yn mynd o gwmpas ei gwaith gyda gwên lydan ar ei hwyneb ac yn awyddus i gynorthwyo eraill heb boeni amdani hi ei hun.

"Bydd llawer o gyfeillion Joan yn ymwybodol bod ei hamgylchiadau wedi dirywio ers tro, ac wedi gwaelu yn ystod cyfnod Covid, fel bu angen gofal arbenigol arni yn ystod misoedd olaf ei hoes Bu farw'n dawel yng Nghartref Willowbrook, Caerdydd, yn dioddef o Alzhheimer's." Ffarweliwyd â gweddillion Joan yn amlosgfa Thornhill brynhawn Llun, 4ydd o Ebrill.

# Tua'r Goleuni

**CYFARTHREBU A DATHLU LLWYDDIANNAU GYDA'N GILYDD.**

Yn y rhifyn hwn: Llwyddiannau, Digwyddiadau a Dyddiadau Pwysig

## Cymuned ysgol sy'n helpu eraill



Diolch hefyd i'n Llywodraethwraig Mrs Chater am ei chyfraniadau anhygoel!








Diolch i Mrs. Rees sy'n gweithio yn Coffee @ Style am bobi'r cacennau hyfryd yma.

Gan *Tracey Neale*

Wrth i wyliau'r Pasg agosáu, hoffem ddiolch i gymuned ein hysgol: ein rhieni, disgyblion, staff, llywodraethwyr ac holl aelodau ein teulu am eich cefnogaeth barhaus y tymor hwn. Roedd yr ymdeimlad dyngarol yn amlwg yn ystod ein Diwrnod Wcráin y mis hwn.

Daeth nifer fawr o staff, rhieni a busnesau lleol i'n hysgol gyda gwledd o gacennau i ni i werthu yn ystod yr awr ginio; rydym yn hynod ddiolchgar i chi am eich caredigrwydd. Aeth ein staff a'n disgyblion yn yr adran Lletygarwch ac Arlwyo ati i bobi cannoedd o gacennau at yr achos. Diolch i chi.

Roedd ein his-bwyllgor elusennol yn wych wrth oruchwylio'r arwerthiant a chasglu arian yn ystod y dydd. Daeth llawer o aelodau ein cymuned atom gydag amlenni wedi'u llenwi ag arian. Roedd nifer wedi mynegi eu dymuniadau i gyfrannu at ein helusen dynodedig, Y Groes Goch'.

Roeddech yn hynod o hael a hoffem ddiolch yn ddiffuant i chi am eich rhoddion. Y swm terfynol a godwyd yw £2,616.52, y swm uchaf erioed i Gwm Rhymni gasglu ac yn arwyddocaol o'r ymdeimlad o dosturi rydyn ni i gyd yn ei deimlo wrth inni helpu ein cymdogion yn Wcráin.

Ar hyn o bryd rydym yn archwilio opsiynau eraill o gefnogi ffoaduriaid o Wcráin ac felly os ydych yn gwybod am unrhyw gasgliadau lleol, cysylltwch â ni ar teulu@ygcwm-rhymni.net gyda mwy o wybodaeth. Rydym yn awyddus i helpu ac yn barod i wrando ar unrhyw syniadau.

## Cefnogi banciau bwyd lleol

Unwaith eto, rydyn ni'n casglu wyau Pasg ar gyfer ein banciau bwyd lleol, fel y gwnawn bob blwyddyn.

Diolch yn fawr i'n disgyblion, teuluoedd, staff a'n holl randdeiliaid sydd wedi cyfrannu yn ystod yr wythnos diwethaf.

Rydym am ddanfon yr wyau i'r banciau bwyd Trussell Trust a'r Care Project a byddwn yn cyhoeddi mwy am y fenter yn ystod yr wythnos nesaf.

Diolch yn fawr i bawb yn ein Teulu Cwm Rhymni sydd wedi cyfrannu.

Dewch o hyd a dilynwch ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol isod:

Teulu Cwm Rhymni PTA

@Cwmrhymni

# Llwyddiannau @CwmRhymni

## Llwyddiannau Ysgol

Llongyfarchiadau i Seren Williams, a gymerodd ran mewn diwrnod ffliwt gyda Cherddorfa Genedlaethol Ieuenctid Prydain Fawr yn Coventry y mis hwn. Cafodd ei dewis i gymryd rhan yn y Rhaglen Ysbrydoli. Am gyflawniad anhygoel Seren. Da iawn ti!



## Ar y Cae

Llongyfarchiadau i Evan Rowlands a Tomos West a gafodd eu dewis i gynrychioli Cynghrair Rygbi Cymru. Dewiswyd y ddau fachgen hefyd i chwarae a chynrychioli Gorllewin Cymru dan 16 ac maent wedi dangos talent eithriadol yn y gamp hon. Da iawn chi!

Da iawn i Ioan Duggan Blwyddyn 12, a gafodd ei ddewis yn ddiweddar i chwarae i garfan Rygbi Cymru dan 18 - mae wedi dangos ymrwymiad eithriadol i'r gamp ers blynyddoedd lawer.

Hoffem hefyd ganmol Caitlin Seaborne yn Bl.11, am ei dewis yng ngharfan Pêl-droed Merched dan 16. Mae ei dycnwch a'i hagwedd gadarnhaol wedi bod yn ganmoladwy eleni. Da iawn ti!



Llongyfarchiadau i ti Logan Yendle ym Ml11 am dderbyn cydnabyddiaeth fel y 'Chwaraewr Mwyaf Addawol' yn y categori dan 16 oed gan Ysgolion Cwm Rhymni a Pontypridd RFC. Anhygoel!



## Dyfodol Disglair

Yn ddiweddar aeth Mrs Rhiannon Davies a'i is-bwyllgor eco ati i blannu coed o amgylch safle'r Gwyndy. Roedd hyn yn rhan o fentrau 'Gweithredu Hinsawdd Caerffili' a 'Cadw Cymru'n Daclus' sydd â'r nod o wella ein hamgylchedd lleol.



Roedd y disgyblion yn hynod frwdfrydig ac wedi dangos aeddfedrwydd wrth ofalu am y coed.

Rydym yn awyddus i gefnogi mentrau tebyg yn ein hardal ac felly os oes gennych unrhyw syniadau neu os ydych chi'n rhan o brosiect tebyg, cysylltwch â ni.



Llongyfarchiadau hefyd i Maddie Malpas Blwyddyn 11 a Rhodri Terrell Blwyddyn 8 am eu cyfraniad diweddar mewn sesiwn Holi ac Ateb gyda Mark Drakeford yn y Senedd. Roedd y ddau yn gyfranogwyr rhagorol ac yn tanlinellu pa mor bwysig yw hi i bobl ifanc i gymryd rhan weithredol mewn gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol. Da iawn, y ddau ohonoch!



Llongyfarchiadau i Seth Bl 8 am basio ei radd 1af Taekwondo gan ennill gwregys gwyn a streipen felyn ar ôl dim ond 3 mis. Da iawn Seth!

Llongyfarchiadau i Anwen Bailey 7W am ennill anrhydedd yn ei harholiad gradd 5. Gwych!

## Newyddion Ysgol

### Hybu Ymgysylltiad

Os nad ydych wedi cael cyfle i ymweld â rhai o'r gwahanol adrannau trwy ein Padlets, sianeli YouTube, tudalennau Twitter neu wefannau, dyma'ch cyfle!

Dyma wefan yr adran Dylunio a Thechnoleg sy'n cynnwys casgliad enfawr o waith disgyblion yn ogystal â fideos gydag awgrymiadau ar sut i ddatblygu eich sgiliau ymhellach.

https://sites.google.com/ygcwm-rhymni.net/ygcrhdt/ca3ks3/tasgau-gwaith-ca3-2021-2022

Diolch i Mr Martin Rees am greu'r wefan hon ac am rannu lluniau gwych y dosbarthiadau!




## Sesiynau Pontio Blwyddyn 9

Mae'r tymor hwn wedi bod yn hynod brysur i staff Blwyddyn 9 gan eu bod wedi gweithio'n agos gyda disgyblion wrth iddynt gychwyn ar y broses o ddewis opsiynau.

Mae disgyblion Blwyddyn 9 wedi derbyn sesiynau blasu i ennyn diddordeb yn y pynciau a rhoddwyd holiadur iddynt ateb er mwyn i ni fesur meintiau dosbarthiadau a grwpiau posib.

Gwahoddwyd rhieni i noson bontio, lle cafwyd sgyrsiau ar y ffordd orau i gefnogi a chynghori'r plant wrth iddynt wneud eu penderfyniadau.

Diolch i'r holl rieni a fynychodd a diolch i'r staff sy'n cysylltu â'n plant a'n teuluoedd ar hyn o bryd mewn ymgais i sicrhau bod pawb yn hapus gyda'u dewisiadau terfynol.

Os hoffech chi rannu newyddion am gyflawniadau allgyrsiol neu bersonol eich plentyn, byddem wrth ein bodd yn clywed amdanyn nhw! Anfonwch e-bost at Bennaeth Blwyddyn eich plentyn gyda manylion (a llun os yn bosibl) a byddwn yn cynnwys eu llwyddiant yn ein cylchgrawn tymhorol.

# Digwyddiadau @CwmRhymni

## Coginio @CwmRhymni

Fel rhan o 'Wythnos Wyddoniaeth' y DU, cynigiodd Mr Graham her i ddisgyblion; i bobi teisen sy'n cynrychioli'r thema o wyddoniaeth.



Hoffem longyfarch Ava Lewis, Libby Harford a Gwennan Evans o 7C am eu creadigrwydd gwych - cacen wedi'i hysbrydoli gan natur. Mae'n edrych yn flasus iawn - da iawn chi!



Mae ein disgyblion Blwyddyn 11 hefyd wedi bod yn brysur iawn yn cwblhau eu harholiad ymarferol arlwyo a lletygarwch. Mynegodd Ms. Jones fod y safon eleni yn eithriadol o uchel a chafodd bleser mawr wrth farcio'r prydau tri chwrs!

Gwahoddwyd staff a disgyblion i'r gegin i flasu rhai o'r prydau a chytunodd pawb eu bod tynnu dŵr o'u dannedd!. Da iawn i bawb am eich ymdrechion aruthrol, rydym yn hynod falch ohonoch.

Ac os nad oedd hynny'n ddigon, roedd ein staff yn yr adran fathemateg yn awyddus iawn i ddathlu Diwrnod Cenedlaethol Pi!

Mae'r egwyddor o pi ($\pi$) yn cael ei ddathlu gan fathemategwyr o gwmpas y byd ar Ddiwrnod Cenedlaethol Pi (Mawrth 14) ac wrth gwrs, beth yw Pi heb bei?!




Da iawn i bawb a gymerodd ran!



Ac os gewch chi'r cyfle, ewch i'r Padlet mathemateg sy'n llawn enghreifftiau o waith disgyblion.

https://engb.padlet.com/cme7/3sosuipnadrl8omr

## 'Anelu am y Sêr' Prosiect Erasmws yn Sisili



Ers yr ymweliad cychwynnol cyffrous yn Ionawr 2020 i gan ein partneriaid o Rwmania, Twrci a Sisili, nid yw wedi bod yn bosibl i gyfarfod wyneb yn wyneb, er i ni gynnal cynhadledd rithiol ardderchog rhyngom ar y thema o 'Arwyr Cenedlaethol' ym mis Mawrth, a drefnwyd gan Rwmania.

Wrth i gyfyngiadau Covid lacio, mae'r ysgolion yn cwrdd yn Sisili rhwng 5-7 Ebrill i gymryd rhan mewn prosiect ffilm, 'Ffilmiau Bywyd'.

Mae pob ysgol yn gyfrifol am greu ffilm ar faterion cyfoes - Hawliau a Chydraddoldeb Menywod, Seiberfwlio a Diogelwch Ar-lein, Cynhwysiad ac Amrywiaeth a phwnc Cwm Rhymni, Amddiffyn yr Amgylchfyd sydd ar hyn o bryd yn nwylo diogel yr Is-bwyllgor Eco.

Y pedwar disgybl sy'n cynrychioli'r ysgol ac yn ymweld ag ysgol Istituto Ugo Mursia, Carini yw Kelsey Davies a Ruby Mosely o'r 6ed dosbarth, a Kalub Soal o Flwyddyn 10.

Fe fydd yn ddiddorol iawn i brofi bywyd mewn ysgol wahanol dramor i weld rhywfaint o hanes a diwylliant yr ardal, siarad Eidaleg a blasu'r bwyd bendigedig. Bydd y pedwar yn rhannu eu profiadau gyda phawb ar ôl dychwelyd i Gymru.

Buon viaggio a tutti!

# Emyn i Gymru

## Dechrau Canu Dechrau Canmol

Un o hoelion wyth tîm Y Dinesydd ac un sy'n gefnogol iawn i "Cwm*ni*" , Eirian Dafydd, yw enillydd cystadleuaeth cyfansoddi geiriau emyn **Dechrau Canu Dechrau Canmol**. Daeth 60 ymgais i law ar gyfer y gystadleuaeth i ddathlu pen-blwydd cyfres boblogaidd S4C yn 60 oed. Y beirniaid oedd John Gwilym Jones a Catrin Alun.

Dywedodd John Gwilym Jones fod gwaith Eirian yn sefyll allan. 'Mae'r emyn yn sôn am deimlo'r llaw, y llaw sy'n iacháu; wel mae rhywbeth fel'na yn gafael ar unwaith yn enwedig yng nghyfnod y pandemig.' Yn ôl Catrin Alun roedd y geiriau buddugol 'wedi fy stopio i yn fy nhracs'. Aeth ymlaen i ddweud bod 'y mesur yn wahanol iawn ac ar y dechrau doeddwn i ddim yn siŵr os oedd hynny'n broblem, ond na, dwi'n meddwl fod hynna'n fanteisiol achos bydd rhaid cael tôn newydd.'

Dyma oedd gan Eirian i'w ddweud am ei gwaith: 'Ro'n i yn ymwybodol bod nifer o eglwysi wedi cau dros gyfnod y pandemig, mae yna aelodau wedi encilio i ffwrdd a'r syniad o ddod yn ôl oedd gen i i ddechrau … I fi, roedd hynna yn ffitio i mewn gyda dameg y Mab Afradlon – rhywun yn encilio, ond yn dod yn ôl … Mae yna hefyd brofiad personol yn rhan o'r ail bennill – pan o'n i'n iau, fe wnes i dreulio sawl cyfnod yn yr ysbyty ac yn ystod y cyfnod yna fe es i i oedfa gyda'r weinidogaeth iacháu … A dyna sydd tu cefn i'r geiriau.'

Mae **Dechrau Canu Dechrau Canmol** nawr wedi cyhoeddi cystadleuaeth newydd i gyfansoddi emyn dôn i gyd-fynd â geiriau Eirian. Bydd gwobr o £200 i'r enillydd a'r gobaith yw y bydd y cyfanwaith newydd yn cael ei berfformio ar **Dechrau Canu Dechrau Canmol** cyn diwedd y gyfres.

Y dyddiad cau oedd Ebrill 29, ac mae'r holl fanylion ar wefan S4C (www.s4c.cymru)

## Gweddi'r Pererin

Fy Nuw, fy Nhad, pan giliaf i'r cysgodion
yn wan fy ffydd, yn blentyn tlawd afradlon,
cyfeiria fi at loches y fforddolion
lle byddi di, yn disgwyl im nesáu.


Ac wrth nesáu, rhof heibio fy ffolineb
wrth geisio'r ffordd i fywyd o ffyddlondeb;
trwy niwl fy myd, synhwyro'th bresenoldeb
a theimlo'r llaw, sy'n estyn i'm hiacháu.



A thrwy'r iacháu, daw cyffro dy gyffyrddiad
yn brofiad byw, yn gyfrwng fy adfywiad;
er gwendid ffydd, o obaith daw arddeliad
a'th gariad di yn foddion i'w gryfhau.

Ar ôl cryfhau a'm derbyn yn etifedd
o fewn dy byrth, caf brofi o'th ddigonedd;
rhyfeddu wnaf, O Dad, at dy drugaredd
gan aros byth, i'th foli a'th fwynhau.

# Colofn Dafydd Islwyn



Taniwyd thema'r golofn hon y mis hwn gan gynnwys rhifyn y ddau fis diwetha': Ysgrif deyrnged Caroline Davies i Eleri Rogers yn dwyn i go' Bro a Bywyd Hywel Teifi Edwards. Ynddo ceir dau ddarlun i gyfoethogi'r ysgrif. Ceir llun Hywel gyda'i gyfaill mynwesol Moc Rogers tu allan i Gapel y Watford, ddiwrnod priodas Eleri a Moc - Hywel oedd y gwas priodas. Dros y dudalen o'r llun uchod ceir llun o ddosbarth anrhydedd y Gymraeg, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 1956; ynddo mae Moc a Hywel yn y rhes gefn ac Eleri yn eistedd yn y rhes ffrynt. Cyfeillion am oes oeddynt.

Testun yr ysgrif yn Eisteddfod Llangwm 1958 oedd 'Dyfalu' a'r enillydd oedd W. M. Rogers, Rhymni, sef Moc. Thema ei ysgrif oedd 'Dyfalu' am hynt a helynt awdur dienw yr Hen Bennill:

Mi fûm yn gweini tymor yn ymyl Tŷ'n y Coed
Y dyna'r lle difyrraf y bum i ynddo erioed:
Yr adar bach yn tiwnio a'r coed yn suo 'nghyd
—Bu bron i'm dorri 'nghalon er gwaetha rhain i gyd.

Yn 1959 ac yn 1962 enillodd Moc Goron Eisteddfod Talaith am ysgrifau graenus. Roedd yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr erbyn 1959. Ef oedd beirniad Tair Ysgrif Hau a Medi, Y Genedlaethol, Cwm Rhymni. Yn Y Genedlaethol 1966 enillodd y gystadleuaeth Llyfr Hanes, deg o orchestion Cymru ym myd chwaraeon. Ymhen y flwyddyn, yn Y Genedlaethol, Y Bala, enillodd ar yr ysgrif Canllawiau. Yn Hwlffordd 1972 gwobr arall am chwe ysgrif bortread. Rwy'n dal i gofio ei gyngor wrth iddo agor ei feirniadaeth lafar yn y Babel Lên ym mis Awst 1990. Dywedodd nad rhwng te a swper ar noson rai dyddiau cyn y dyddiad cau y dylid bwrw ati i gyfansoddi ar gyfer y Genedlaethol.

Brodor o Ffair Rhos, Ceredigion, oedd Moc Rogers. Pentref a ddisgrifiwyd gan y Prifardd Dafydd Jones fel dihareb o bentref bach. Pentre' troedle dau brifardd, englynwr buddugol yn y Genedlaethol a dau brifardd yr Urdd.

Enillodd y Parchedig W. J. Gruffydd (1916-2011) y Goron yn 1955 ac 1960. Yn 1966 yr enillodd Dafydd Jones (1907-1991) ei Goron. Evan Jenkins (1894-1959) oedd yr englynwr buddugol. Y testun oedd 'Llwydrew' yn Eisteddfod 1940, yr Eisteddfod Radio. Bu Evan Jenkins a Dafydd Jones yn aelodau o dîm Ymryson y Beirdd Sir Aberteifi yn ystod oes aur y tîm hwnnw. Perswadiodd T. Llew Jones y tri aelod i gyhoeddi cyfrolau o'u gwaith.

Enillodd y Parchedig Dafydd Henry Edwards (1936-2018) Gadair yr Urdd yn Nolgellau yn 1960. Ym Mhontypridd yn 1973 yr enillodd D. Islwyn Edwards ei Gadair.

Y Parchedig Gwilym R. Tilsley (1911-97), Prifardd Tilsli y Genedlaethol, Caerffili 1950, ysgrifennodd y cyflwyniad i gyfrol Dafydd Jones, Ffair Rhos. Tilsli hefyd enillodd y wobr am gerdd 'Morgan John Rhys' yng Nghaerffili yn 1950. Mae cwpled ola ei soned gynta' o wyth yn taro deuddeg:

"ond gwelai yntau heibio i'r caerau pell.
Ffordd yn arwain i'r dyfodol gwell."

Yn y Genedlaethol, Bro Colwyn 1995, fe enillodd Michael Charnell-White y gystadleuaeth unawd safonol i unrhyw lais ar gyfer cantorion 18-25 gyda chyfeiliant piano. Dylid dewis geiriau Cymraeg gan fardd o Gymro. Canmolwyd y gosodiad. Dewisodd Michael gerdd gan Cynan, Ffrind y Delyn, a gyhoeddwyd yng Ngherddi Cynan, Nadolig 1959. Cerdd Goffa ydy hi i Hugh Jones, Trefor Wen, Llansadwrn, Ynys Môn. Ffarmwr o deulu o ffermwyr adnabyddus yn y fro. Roedd un o'i frodyr, David Jones, Cefn Coch, Llansadwrn yn adnabyddus ym myd ceffylau gwedd Sioeau Amaethyddol. Brawd arall iddo oedd William Jones, Cremlyn, Beaumaris, cyfaill oes i fy nhad. Mab Hugh a Maggie Jones oedd Telynor Môn, Hugh David Evans-Jones a fu farw yn 76 oed ar y 18fed o Orffennaf 2019. Claddwyd ef ym mynwent Llansadwrn, 1af o Awst. Ymhen yr wythnos roedd ei unig fab, Gareth Evans-Jones, Marian Glas, Ynys Môn, yn ennill y Fedal Ddrama am y tro cyntaf yn y Genedlaethol Dyffryn Conwy.

Cyfeiriwyd hefyd yn y papur bro am englyn coffa Gwilym Rhys Roberts i Mrs Enid Jones, Caerdydd. Cyhoeddwyd yr englyn yn y cylchgrawn Barddas, Gorffennaf ac Awst 1989.

**Enid Jones Caerdydd – priod W. J. Jones**

Tawel ei cherdded diwall – tua'r ffin;
Taer ei ffydd a di-ball.
Hwyr y dydd yn nhir y dall
Gweld y wawr mewn gwlad arall.

Bu Mrs Enid Jones yn gweithio am flynyddoedd yn Oriel, Siop Llyfrau Cymraeg a Chymreig yn Hewl Siarl, Caerdydd. Roeddem fel teulu yn mwynhau taro i mewn i'w siop i roi'r byd yn ei le gyda hi cyn prynu cyfrol neu ddwy. Cofnodais yn fy nyddiadur bod rhyw ddieithrwch yn yr Oriel ym mis Medi 1989.

## Colofn y Dysgwyr

***Ann Lewis***

Mae mis Mai wedi cyrraedd, mae'r dyddiau yn hir a'r tywydd (gobeithio!) yn braf. Mae llawer o bobl yn cynllunio gwyliau neu daith diwrnod i rywle diddorol. Yn y gerdd dw i wedi ei dewis y mis yma, mae T. Llew Jones yn breuddwydio am grwydro'r byd mewn hen garafán a cheffyl yn ei thynnu a gweld pob math o bethau gwahanol. Hoffech chi wneud yr un peth?

**Fy Ngharafán**

Pe bai gen i geffyl a charafán,
Fe awn i grwydro i lawer man;
Ffordd yma, ffordd acw, i fyny, i lawr,
Ar heolydd bychain a phriffyrdd mawr.

Fe fynnwn weld rhyfeddodau'r byd,
Y traethau pell a'r dinasoedd i gyd;
Y plasau gwych a'r bythynnod gwyn,
A'r castell mawreddog ar gopa'r bryn.

Fe awn i grwydro dros fynydd a rhos
Yn fy ngharafán, a chawn fwrw nos
Yn ymyl rhyw gornant fach loyw a glân,
A chysgu'n esmwyth yn sŵn ei chân.

Ond fore trannoeth fe awn drachefn
Ymlaen ac ymlaen tros y briffordd lefn;
Fe awn i grwydro i lawer man,
Pe bai gen i geffyl a charafán.

*gobeithio : I hope* *cynllunio : to plan* *taith diwrnod : day trip* *breuddwydio : to dream*
*crwydro : to wander* *a cheffyl yn ei dynnu : horse-drawn*
*pob math o bethau gwahanol : all kinds of different things* *yr un peth : the same thing*
*pe bai gen i : if I had* *fe awn : I would go* *ffordd yma, ffordd acw : this way and that*
*priffordd/priffyrdd : main road/s* *rhyfeddodau'r byd : the wonders of the world* *lefn : smooth*
*bythynnod : cottages* *mawreddog : majestic* *rhos : moor* *bwrw nos : to spend the night*
*cornant : a small stream* *esmwyth : comfortably* *drachefn : again* *ylmaen ac ymlaen : on and on*

//////////////////////////////////////////////////////////////////

# Anthem Genedlaethol Wcráin

***Cyfaddasiad gan Jan Penney o Anthem Genedlaethol*** **Wcráin**



Dal i sefyll mae Wcráin gyda chadernid a bri,
Eto gwena ffawd arnom, frodyr annwyl,
Fel gwlith yn yr haul derfydd ein gelynion,
A byddwn eto, frodyr, yn rheoli ac yn ffynnu yn ein gwlad annwyl,
Corff ac enaid aberthwn dros ein rhyddid,
A dangoswn mai o dras y Cosaciaid yr ydym ni.

# Ger Moscow

***Ymateb gan fardd "Cwmni" Dafydd Islwyn***

Miloedd o filwyr ieuanc
yn dynn yn rhwydwaith
lwgr y wladwriaeth styfnig

Ond bechgyn yr ydynt
meibion a brodyr,
cariadon a chyfeillion
a chyd-ddinasyddion
ein byd.

Â chur Moscow
wedi diffodd
cannwyll eu llygaid

Peidiwn
a mynd o'r tu arall
heibio
iddynt.

# Trouchia



Na, *nid* rysáit draddodiadol Gymreig sydd gen i ar eich cyfer y mis hwn. I ddweud y gwir, rwy wedi methu hyd yn hyn â darganfod enw Cymraeg ar y pryd hwn, nac ar y llysieuyn sy'n sail iddo, sef *Swiss chard.* Nid yw cynnig un geiriadur, sef "chard swiss" yn argyhoeddi! Ac nid o'r Swisdir y daw'r rysáit ei hun, ond yn hytrach o dde Ffrainc. Gair o iaith Provence yw *trouchia*, mae'n debyg, ac mae enwau eraill ar y pryd hefyd, sef *crespéou* neu *omelette à la moissonneuse.*

Math ar omlet ydyw, felly, ond un sy'n cymysgu llysiau gwyrdd gyda'r wyau. Ystyr *moissonneuse* yw "cynhaeafwreg" neu "peiriant cynaeafu", efallai oherwydd bod cynnyrch yr ardd wedi ei gymysgu gyda'r wyau. Does dim sicrwydd felly am ystyr na tharddiad yr enwau hyn ar y pryd, ond mae dau beth yn sicr ddigon am *trouchia:* mae'n drafferthus i'w baratoi ac yn flasus tu hwnt. Yn werth pob munud (neu awr) yn y gegin yn fy marn i.



Fel y gwyddoch, ddarllenwyr Cwm*ni*, cefais gnwd da o gêl eleni ac mae'r *chard* wedi gwneud yn dda hefyd. Yn ôl tystiolaeth y llun, mae hyd yn oed y gath yn ei edmygu. Mae *chard* yn gweithio'n dda mewn salad yn lle letys, a gellir ei ychwanegu at brydiau eraill yn lle bresych. Ond fel y gwelwch hefyd mae'r *chard* ar fin blodeuo (fel y cêl), ac felly bydd angen ei ddefnyddio – neu ei rewi (fel y cêl). Yn ffodus iawn, o gofio bod y cêl yn cymryd cymaint o le yn y rhewgell, mae angen llwyth o *chard* i wneud *trouchia.*

Felly dyma ni ! Bydd angen y canlynol arnoch chi:

**500g *chard*; 3 wy; 2 lond llwy bwrdd caws Parmesan/Pecorino/Gruyère; 5 darn garlleg; olew olewydd.**

Y cam cyntaf yw casglu'r mynydd o *chard* fydd ei angen arnoch, gan ei fod mor ysgafn, yna dyma'r camau nesaf:

1. Tynnu coesau'r chard, a thorri'r dail yn fân; ei olchi mewn colander, a gwasgu'r dŵr allan.
2. Ei roi mewn pan bas o ddŵr berw, a'i ddigoni am 10 eiliad.
3. Ei droi allan i'r colander eto, ei oeri dan ddŵr tap, a gwasgu'r dŵr allan ohono a'i adael i oeri.
4. Curo'r wyau ac ychwanegu'r caws atynt.
5. Malu'r garlleg yn bast, yna ei ffrio'n gyflym mewn 2 lond llwy bwrdd o olew, cyn ychwanegu'r chard
6. Ffrïwch y cymysgedd am 10 munud gan ei droi'n gyson.
7. Ychwanegu'r cymysgedd wyau a chaws ato, gan ei gymysgu'n ofalus.
8. Cymryd ffrympan fach arall, twymo 1 llond llwy fwrdd o olew ynddo ar wres uchel.
9. Rhowch y cymysgedd ynddo, a'i ddigoni am gwpl o funudau cyn troi'r gwres lawr yn isel iawn.
10. Rhoi clawr dros y ffrympan, a'i adael i ddigoni am ryw 8 munud.
11. Rhoi plat dros y ffrympan, troi'r omlet allan.
12. Rhoi ychydig mwy o olew yn y ffrympan, codi'r gwres, a rhoi'r omlet yn ôl yn y ffrympan i ddigoni am gwpl o funudau ychwanegol.

Mwynhewch! Mae digon yma i ddau, ond gallaf fwyta'r cyfan fy hun mewn un pryd, er mae'n rhaid cysgu am awr fach wedyn… gwaith blinedig yw gwneud *trouchia*!

# Merched y Wawr

## Cyfarfod Mis Ebrill

Jên Dafis,Swyddog Datblygu'r De-ddwyrain a De Powys, oedd ein siaradwr gwadd dros Zoom nos Fercher Ebrill 20. Mae llawer ohonom wedi dod i adnabod Jên trwy ei gwaith diwyd a chreadigol ar ran Merched y Wawr ond mae ganddi gefndir gwaith diddorol ac amrywiol dros ben. Yn ferch i deulu fferm o Bontsian yn ne Ceredigion bu Jên yn llywydd Undeb y Myfyrwyr yn Aberystwyth, bu'n gweithio i Gymdeithas yr Iaith, y Mudiad Meithrin, Undeb Myfyrwyr Cenedlaethol Cymru a Choleg y Drindod Dewi Sant. Rydym yn ffodus iawn i gael merch mor dalentog a phrofiadol yn gweithio i Ferched y Wawr a dylid nodi hefyd ei bod, ar ôl ymgartrefu ym Mro Morgannwg, nawr hefyd yn weithgar gyda sefydliad Cymraeg y Fro.



Testun Jên oedd sut y gwnaeth MYW addasu i ddefnyddio technoleg, yn arbennig yn ystod y Cyfnodau Cloi yn dilyn ymddangosiad COVID.
Fe ddechreuodd trwy ein hatgoffa gymaint mae technoleg wedi datblygu yn ystod ein bywydau ni. Cawsom ein hatgoffa o'r cyfnod pan oedd rhaid defnyddio Tipp-Ex i gywiro gwaith ac roedd nifer ohonom yn gwenu wrth gofio'n hymdrechion i feistroli'r hen beiriant Banda!

Pan ddaeth cyfyngiadau COVID i rym, gofid mawr MYW fel cymaint o sefydliadau eraill oedd sut i gadw aelodau mewn cysylltiad â'i gilydd pan nad oedd modd cyfarfod wyneb yn wyneb. Wrth lwc, roedd technoleg ar gael. Prynwyd cyfrifiadur ar gyfer staff MYW o arian y Loteri ac fe berswadiwyd y sefydliad i gael trwydded Zoom. O dipyn i beth fe ddaeth MYW ar Zoom yn rhan o'r normal newydd er bod tipyn o amheuaeth i ddechrau a fyddai'r aelodau yn gallu delio â'r dechnoleg.

Y digwyddiad rhithwir cyntaf oedd cyngerdd gyda Siân James, ac mae Jên yn dymuno diolch i Siân am fod mor barod i addasu i amgylchiadau newydd. Cawsom gip ar y gyngerdd yma yn ystod y cyflwyniad. Yn fuan, aeth pethau o nerth i nerth. Oedd, roedd llawer o aelodau yn gysurus gyda'r dechnoleg newydd ac fe gafwyd sgyrsiau a digwyddiadau o bob math ar Zoom. Gwrandawyd ar Betsan Powys a Mererid Hopwood, ac yn ddiweddarach Ioan Gruffudd o'r Unol Daleithiau a ffrindiau o Batagonia hefyd.  Cafwyd cyngherddau ac oedfa Nadolig ar Zoom. Dangoswyd bod modd cael hiwmor ar lein wrth i rai o staff MYW ymddangos mewn gwisgoedd ffansi doniol! Roedd hyder staff ac aelodau MYW wrth gyfarfod ar-lein yn cynyddu a mwy a mwy o bobl yn cysylltu.

Do, fe lwyddwyd i gadw pobl mewn cysylltiad a'i gilydd - OND - ac ar yr 'ond' yma y daeth Jên at adran olaf ei chyflwyniad. Ble'r awn ni nesaf? Fyddwn ni'n parhau i ddefnyddio Zoom ar gyfer ein cyfarfodydd? Beth am yr aelodau nad oes ganddynt gysylltiad Zoom? Un awgrym wrth gwrs yw cynnal cyfarfodydd *hybrid* lle gall pobl benderfynu drostynt eu hunain a ydynt am gyfarfod wyneb yn wyneb neu yn rhithwir. Posibilrwydd arall yw cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn yr haf ac ar Zoom yn y gaeaf. Mae cangen Cwm Rhymni yn teimlo i ni fod yn flaengar yn hyn o beth yn cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn y prynhawn a chyfarfodydd dros Zoom gyda'r nos. Wrth i ni ddiolch i Jên am roi cymaint o ffrwyth meddwl i ni ar gyfer y dyfodol, diolchwyd i Gwyneth am ei sgiliau gwych yn rhoi arweiniad i ni trwy faes dyrus technoleg a'i hamynedd dibendraw. Diolchwyd hefyd i Bethan sy'n sicrhau cymaint o gefnogaeth i ni trwy'r Fenter Iaith. Cawsom noson a brociodd y meddwl, ond noson hwyliog ag iddi naws hyfryd a chynnes. Diolch am ddod atom Jên.

*Ann Lewis*

# Cêl – a ffarwel?

Dyma gwestiwn i chi arddwyr: pam ydyn ni'n trin dau o flodau'r gwanwyn mewn ffordd mor wahanol i'w gilydd? Mae blodau cennin Pedr a blodau dant-y-llew yn agos iawn o ran eu lliw ac o ran y cyfnod pan fyddant yn blodeuo. Caiff y blodau melyn cyntaf groeso a gofal tyner, tra bod yr ail yn gywilydd i'r garddwr, sy'n brysio i'w ddiwreiddio a thaflu'r planhigyn a'i flodau euraidd.



Efallai taw'r ateb yw bod cennin Pedr angen sylw a gofal tra bod dant-y-llew yn tyfu ymhobman er gwaethaf pob ymdrech i'w ddistrywio. Rydyn ni i gyd yn tueddu i werthfawrogi'r hyn sydd yn anodd i'w feddiannu yn fwy  na'r hyn sydd wrth law bob amser.

Ymddangosodd blodyn melyn arall yn fy ngardd ar yr union un adeg â'r cennin Pedr a'r dant-y-llew – ac ie, mae digonedd o'r naill a'r llall gen i!  Fel y dwedais fis diwethaf, nid arwydd o fywyd newydd y gwanwyn ydy'r blodau bach melyn hyn, ond yn hytrach yn brawf bod y planhigyn yn paratoi i hadu cyn marw.

Wel, er y byddwch wedi disgwyl i fi groesawu'r datblygiad hwn yn hanes y cêl, a rhoi triniaeth debyg iawn i'w hen blanhigion ag a roddaf i rai dant-y-llew, am ryw reswm ni allwn ddadwreiddio'r planhigion a'u rhoi gyda gweddill gwastraff yr ardd. Fy hen gyfeillion! Wedi'r cyfan roedd digon o ddail arnynt o hyd … nid oedd eu blas wedi newid er gwaetha'r blodeuo…buont yn gynhaliaeth maethlon trwy gydol yr hydref a'r gaeaf … ni fu'n rhaid i fi brynu llysiau gwyrdd o gwbl.



Felly rwy wedi parhau i fwyta'r cêl ac anwybyddu'r blodau, ond mae'r amser wedi dod i osod yr ardd ar gyfer y tymor newydd. Bydd angen i'r cêl ildio'i le i'r pys pêr sy'n barod i'w plannu allan erbyn hyn. Ond penderfynais gadw cyfran o'r dail, a'u rhewi. Erbyn hyn mae drâr cyfan yn y rhewgell yn llawn pecynnau o ddail cêl, wedi eu golchi a'u torri'n fân. Ni fydd yn rhaid i fi brynu llysiau gwyrdd am fisoedd eto!

## Dosbarth Wyn

Bydd y dosbarth yn cyfarfod ym mis Mai am y tro olaf eleni ac mae croeso i chi ymuno â ni yn ein cyfarfod ar Zoom

### Mai 18fed am 7:30 y.h: 'Sŵn y Gwynt sy'n Chwythu' Kitchener Davies

Gobeithio y bydd y dosbarth yn ail ymgynnull yn ystod yr Hydref. Yn sicr bydd eich papur bro "Cwm*ni*" yn sicrhau y cewch y wybodaeth ddiweddaraf.

I gael rhagor o wybodaeth ac i dderbyn y ddolen Zoom, cysylltwch â Wyn (JamesEW@caerdydd.ac.uk)

## FFIT CYMRU yng Nghanolfan y Glowyr

***Ann Lewis***




Faint ohonoch chi sy wedi dilyn y gyfres Ffit Cymru ar S4C bob nos Fawrth tybed?

Cyfres yw hon lle mae arbenigwyr mewn ymarfer corff, bwyta'n iach a seicoleg yn cynghori sawl ymgeisydd sydd am golli pwysau a chynyddu ffitrwydd.

Nos Fawrth Ebrill 19, ffilmiwyd rhan o'r rhaglen yng Nghanolfan y Glowyr, Caerffili, ac fe gafodd yr ymgeiswyr wers ddawnsio gan Amy Dowden, merch o Gwm Rhymni a ddaeth i enwogrwydd trwy fod yn un o'r dawnswyr proffesiynol ar *Strictly Come Dancing.*

Mae'r llun yn dangos y grwp yn ymlacio yn yr haul yn ystod seibiant yn eu sesiwn ddawnsio.

# Tribannau

A dyma ddod i ddiwedd ein casgliad o dribannu sy'n ymwneud â Chymoedd y De ddwyrain. Tybed oes gan ein darllenwyr rhai i'w cynnig?

Un peth sy'n amlwg ddigon
Er gwarth i hil y Brython,
Fod llawer Cymro truan, tlawd
Yn ofni gwawd y Saeson.

Ac onid yw'n drueni
Na feddent fwy o egni;
Pob un i siarad yn ei drefn
Heb droi ei gefn nac ofni.

Mi welais *riots* Merthyr
A gormes fawr y gweithwyr;
Fe laddwyd trigain yn ddi lai,
A chlwyfwyd rhai o'r milwyr.

Daeth yno wŷr yr Hirffyn [=*Lancers,* sef y milisia]
A'r Peisiau bach i'w canlyn [sef yr *Highlanders*]
Ond hawyr annwyl! aethus dric
Oedd crogi Dic Penderyn.

Menter Iaith Sir Caerffili

# CLWB CERDDED

## 10:00 - 12:00

**Mai 4 May**

**Llwybrau'r Fan Vann *Road Trails* –** cwrdd yn / *Meet at*
**CF833DB**

**Mai 11 May**

**Rhymni** - Cwrdd tu allan / *Meet outside* 'Brewery Sports and Social Club'
**NP22 5HT**

**Mai 18 May**

**Bedwas** - Cwrdd ym maes parcio Caffi'r Graig / *Meet at the Rock Cafe car park* **CF838EA**

**Mai 25 May 2022**

**Trelewis** - Maes Parcio Canolfan Dringo Summit UK *Car Park*
**CF466RD**

***A cyfarfod trefnu teithiau nesaf ar y diwedd***

Rhaid gwisgo esgidiau cerdded addas
*You must wear suitable footwear*



bethanjones@mentercaerffili.cymru
01443 820913

Mwynhau'r Gymraeg
Menter Iaith Sir Caerffili
MENTRAU IAITH

Rhif elusen gorestredig: 1105172 Rhif cwmni: 5096968